**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Ebrill 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 14 Mai 2020 |

## PWNC

Eitem 6:CAIS AM ADNODDAU I'R ADRAN ADDYSG

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd ymrwymo £180,000 o gyllid un tro o gronfa trawsffurfio'r Cyngor hyd at diwedd Mawrth 2022 ar gyfer galluogi'r Adran Addysg i gael adnodd ychwanegol ar delerau secondiad am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn targedu, cefnogi a chynnig her briodol ac amserol i'r ysgolion uwchradd gan wireddu un o'r ymrwymiadau yng Nghynllun y Cyngor er mwyn gwella'r deilliannau i blant a phobl ifanc.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Byddai derbyn adnoddau ychwanegol gan y Cyngor yn galluogi'r Adran Addysg i dargedu, cydweithio, cefnogi a chynnig her briodol ac amserol i'r ysgolion uwchradd rheiny sydd mewn categorïau cefnogaeth coch a melyngoch, ynghyd â'r ysgolion uwchradd ym Meirionnydd yn sgil yr heriau sy'n eu hwynebu o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr; er mwyn gwella'r deilliannau i blant a phobl ifanc y sir.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 28 Ebrill 2020 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 14 Mai 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 7:DIWEDDARIAD AR YR YMATEB I BANDEMIG COVID-19

---

**PENDERFYNIAD**

Nodi'r wybodaeth a diolch i staff am eu gwaith yn ystod y cyfnod argyfwng.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Defnyddwyd y cyfle i'r Prif Swyddogion a'r Aeldoau i roi diweddariad ar y gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud er mwyn ymateb i'r pandemig Covid-19. Diolchwyd i staff am eu gwaith diflino i sicrhau parhad gwasanaeth i drigolion Gwynedd yn ystod y cyfnod hwn.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Dim i'w nodi

---